



Raspberry Pi

Polisi Diogelu'r Raspberry Pi Foundation

Crëwyd gan: Maria Quevedo (Arweinydd Diogelu'r RPF)
Cymeradwywyd gan: Philip Colligan (Prif Weithredwr RPF)
Dyddiad cymeradwyo: Rhagfyr 2021
Dyddiad adolygu nesaf: Rhagfyr 2022

1. Mae'r polisi hwn yn nodi dull gweithredu'r Raspberry Pi Foundation ar gyfer diogelu. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr.
2. Mae'r Raspberry Pi Foundation yn credu na ddylai unrhyw blentyn, person ifanc nac oedolyn agored i niwed byth ddioddef camdriniaeth o unrhyw fath. Rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i hybu lles pob plentyn, person ifanc ac oedolyn agored i niwed, ac i'w diogelu. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddilyn arferion sy'n eu diogelu.
3. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr sesiynol, staff asiantaeth ac unrhyw un sy'n gweithio ar ran y Raspberry Pi Foundation (RPF), fel cyrff rhanbarthol, clybiau neu bartneriaid cenedlaethol.
4. Mae'n berthnasol i holl raglenni a gweithgareddau'r RPF, gan gynnwys Code Club, CoderDojo, Coolest Projects, hyfforddiant a digwyddiadau eraill rydyn ni'n eu rhedeg yn uniongyrchol, heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau mewn lleoliadau sydd â'u polisiau diogelu eu hunain, ac yn yr achosion hynny, dylid ystyried y polisi hwn yn atodiad i bolisi'r lleoliad.
5. Dyma bwrpas y polisi hwn:
 - a. Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r RPF.
 - b. Darparu staff a gwirfoddolwyr â'r egwyddorion sylfaenol sy'n dylanwadu ar ein dull o ddiogelu a gwarchod plant.
6. Mae'r polisi hwn wedi cael ei lunio ar sail deddfwriaeth a chanllawiau sydd â'r nod o ddiogelu plant, gan gynnwys: Deddf Plant 1989, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1991, Deddf Diogelu Data 1998 a 2018 y DU, Deddf Hawliau Dynol 1998 y DU, Deddf Troseddau Rhywiol 2003 y DU, Deddf Plant 2004 y DU, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 y DU, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 y DU, Deddf Plant a

Theuluoedd 2014 y DU, a Children First Gweriniaeth Iwerddon 2015.

7. Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'n [polisi preifatrwydd](#), sydd hefyd yn rhoi manylion am hawliau gwrthrychau data a'n polisi cadw data. Mae'r polisiâu perthnasol eraill yn cynnwys:
 - a. [Cod ymddygiad](#).
 - b. [Canllawiau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu](#).
 - c. [Dogfen ganllaw ar adnabod camdriniaeth a delio â datgeliadau](#).
 - d. [Canllawiau ar redeg sesiynau ar-lein yn ddiogel](#).
 - e. [Canllawiau i oedolion ar gefnogi plant sy'n cymryd rhan mewn sesiynau ar-lein](#).
 - f. [Cod ymddygiad i blant sy'n cymryd rhan mewn sesiynau ar-lein](#).

8. Rydyn ni'n cydnabod:
 - a. Bod lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn hollbwysig.
 - b. Bod gan yr holl blant ac oedolion agored i niwed yr un hawl i ddiogelwch cyfartal rhag pob math o niwed a chamdriniaeth heb ystyried oedran, anabledd, rhywedd, treftadaeth hiliol, cred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth.
 - c. Ei bod hi'n hollbwysig gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, oedolion agored i niwed, rhieni/gwarcheidwaid, gofalwyr a'u hasiantaethau er mwyn hybu lles.

9. Er mwyn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, byddwn ni'n:
 - a. Gwerthfawrogi, parchu a gwrandao ar yr holl blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
 - b. Penodi a hyfforddi Arweinydd Diogelu dynodedig cyffredinol ar gyfer y Raspberry Pi Foundation, arweinydd ar gyfer pob maes gweithgareddau mawr, ac Aelod Bwrdd arweiniol a fydd yn gyfrifol am ddiogelu.
 - c. Rhoi canllawiau diogelu ar waith drwy hyrwyddo gweithdrefnau clir, [cod ymddygiad](#), a [chanllawiau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu](#) i staff a gwirfoddolwyr.
 - d. Recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel, gan wneud yn siŵr bod yr holl archwiliadau angenrheidiol yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith leol ac arferion da. Mae holl staff y Raspberry Pi Foundation yn destun archwiliad cofnodion troseddol bob tair blynedd. Yn unol â'r ddeddfwriaeth leol, rhaid i'r holl weithwyr

yn lwerddon gydymffurfio â [datganiad diogelu plant](#) sydd i'w weld yn ein swyddfeydd yn lwerddon.

- e. Darparu hyfforddiant diogelu effeithiol i'r holl staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, gan gynnwys [modiwl hyfforddi ar-lein am ddim](#), a bydd y tîm diogelu dynodedig yn cyflawni hyfforddiant diogelu manwl, rheolaidd.
- f. Ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau i'r cyd-destun rydyn ni'n gweithredu ynddo drwy adolygu ein systemau a datblygu canllawiau, hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol yn ôl yr angen.
- g. Gwneud yn siŵr bod holl gytundebau partneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a thwf y Raspberry Pi Foundation yn cynnwys rhwymedigaethau diogelu i gydymffurfio â'r polisi diogelu hwn a'r holl ddeddfwriaeth ac arferion lleol perthnasol, ac i gynnal hunanasesiad diogelu fel rhan o'r adolygiad blynyddol o drwydded partneriaid.
- h. Darparu canllawiau ychwanegol i'n holl bartneriaid rhyngwladol i wneud yn siŵr eu bod yn gallu rhoi holl bolisiau a chanllawiau diogelu'r Raspberry Pi Foundation ar waith yn effeithiol.
- i. Dilyn gweithdrefnau clir i reoli unrhyw honiadau yn erbyn staff a gwirfoddolwyr yn briodol.
- j. Rhannu gwybodaeth am bryderon â'r asiantaethau priodol a chynnwys rhieni, plant ac oedolion agored i niwed yn briodol.
- k. Gwneud yn siŵr bod digwyddiadau a phryderon diogelu'n cael eu hadrodd yn gyson i Arweinydd Diogelu cyffredinol y Raspberry Pi Foundation ar unwaith; ac i'r Prif Weithredwr a'r Ymddiriedolwr Diogelu Arweiniol o fewn 24 awr, a bod pryderon sylweddol yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd llawn.
- l. Darparu [ffurflen rhoi gwybod am bryder diogelu](#) ar-lein a gwasanaeth cymorth ffôn 24 awr ar gyfer pryderon diogelu brys: +44 (0) 800 1337 112 (y DU yn unig) neu +44 (0) 203 6377 112, a gwneud yn siŵr bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn.
- m. Creu a chynnal amgylchedd gwrthfwlio, a gwneud yn siŵr bod gennym bolisi a gweithdrefn i'n helpu i ddelio'n effeithiol ag unrhyw fwlio sy'n digwydd.

- n. Gwneud yn siŵr bod gennym fesurau cwyno a chwythu'r chwiban effeithiol ar waith.
- o. Mynnu amgylchedd ffisegol diogel i blant, pobl ifanc, oedolion agored i niwed, staff a gwirfoddolwyr drwy roi mesurau iechyd a diogelwch ar waith yn unol â'r gyfraith a chanllawiau rheoleiddiol.
- p. Comisiynu archwiliad trydydd parti o bolisi, arferion a diwylliant diogelu'r Raspberry Pi Foundation bob tair blynedd, a chynnal archwiliad mewnol bob blwyddyn, gan gynnwys diweddarau'r polisi hwn.
- q. Rhannu adolygiad o berfformiad, polisïau a gweithdrefnau diogelu'r Raspberry Pi Foundation â'r Bwrdd unwaith y flwyddyn.

10. Tîm Diogelu Dynodedig:

Ymddiriedolwr Diogelu Arweiniol: Charles Leadbeater

Arweinydd Diogelu Dynodedig: Maria Quevedo, maria@raspberrypi.org

Swyddogion Diogelu Dynodedig:

- a. Code Club: Tamasin Greenough Graham, tamasin.g.graham@raspberrypi.org
- b. CoderDojo: John McAtominey, john.mcatominey@raspberrypi.org
- c. Partneriaid Byd-eang Clybiau: Sonja Bienert, sonja@raspberrypi.org
- d. Tîm Cyfrifiadureg: Fergus Kirkpatrick, fergus.kirkpatrick@raspberrypi.org
- e. Tîm Cymorth i Addysgwyr: Dan Elwick, dan.elwick@raspberrypi.org
- f. Digwyddiadau: Helen Drury, helen.drury@raspberrypi.org
- g. Tîm Dysgu Anffurfiol: Marc Scott, marc@raspberrypi.org
- h. Gweithrediadau: Andrew Morton, andrew.morton@raspberrypi.org
- i. Partneriaethau Ieuencid: Tom Hadfield, tom@raspberrypi.org

Diwedd y polisi